

FFURFLEN RHW8

HYSBYSIAD O HAWLIAD ADENNILL MEDDIANT ESTYNEDIG YN ERBYN YR ISDDEILIAD

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan brif landlord i roi hysbysiad i'r isddeiliad o dan adran 65(3)(b) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 o fwriad y landlord i wneud cais am hawliad adennill meddiant estynedig yn erbyn yr isddeiliad mewn achos hawliad meddiant yn erbyn deiliad y contract.

Rhan A: Prif Landlord	Rhan B: Isddeiliad neu Isddeiliaid
Enw: Cyfeiriad:	Enw(au):

Rhan C: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract <i>Landlord neu landlordiaid i'r isddeiliad</i>	Rhan D: Annedd
Enw(au): Cyfeiriad:	Cyfeiriad:

Rhan E: Hysbysiad o Hawliad Adennill Meddiant Estynedig yn Erbyn yr Isddeiliad
<p>Mae'r prif landlord yn rhoi hysbysiad i chi, yr isddeiliad, yn unol ag adran 65(3)(b) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, fod y prif landlord yn bwriadu gwneud cais i'r llys am orchymyn adennill meddiant estynedig yn eich erbyn chi, yr isddeiliad, yn yr achos ar yr hawliad yn erbyn eich landlord neu landlordiaid presennol, sef deiliad neu ddeiliaid contract yr annedd uchod.</p> <p>Mae gennych chi, yr isddeiliad, yr hawl i fod yn barti i'r achos ar yr hawliad adennill meddiant yn erbyn deiliad neu ddeiliaid y contract.</p>

Rhan F: Llofnod	
Llofnodwyd gan y prif landlord, neu ar ei ran: 	Dyddiad:

Canllawiau ar gyfer isddeiliad neu isddeiliaid

Mae'r prif landlord yn gwneud cais i'r llys am orchymyn adennill meddiant yn erbyn eich landlord. Mae'r hysbysiad hwn yn dweud bod y prif landlord yn bwriadu estyn yr hawliad adennill meddiant i chi. Gallai fod yn ofynnol i chi drwy orchymyn llys ildio meddiant o'r annedd a restrir yn Rhan D.

Os oes gennych unrhyw amheuan neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch unrhyw agwedd ar yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch landlord yn y lle cyntaf. Gall llawer o broblemau gael eu datrys yn gyflym drwy eu

codi'n syth. Os na allwch ddod i gytundeb â'ch landlord, efallai y byddwch am gysylltu ag asiantaeth gynghori (megis Cyngor ar Bopeth Cymru neu Shelter Cymru) neu gynghorwyr cyfreithiol annibynnol. Os ydych yn credu eich bod yn wynebu'r risg o fod yn ddigartref o ganlyniad i gael yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael cymorth.